

Meithrin penderfyniad

*“Yn awr y mae fy enaid mewn cynnwrf. ... O Dad, gogonedda dy enw.”
(adn. 27–28)*

Beth am ddarllen Ioan 12:20–36 ac yna myfyrio

Doedd y tangnefedd a adawodd Iesu i'w ddisgyblion, fel y gwelsom ni ddoe, ddim yn deillio o fyw mewn lle paradwysaidd, ymhell oddi wrth densiwn bywyd bob dydd. I'r gwrthwyneb, roedd amgylchiadau bywyd Iesu yn llawn cynnwrf. Roedd pobl yn tarfu'n gyson ar ei lonyddwch, roedd galwadau ei weinidogaeth yn sugno ei egni, ac fe wyddai, mewn ffordd na allai neb arall wybod, am ddigalondid pechod a baich yr anghenion o'i amgylch. Cafodd ei gamddeall a'i feirniadu'n hallt, ac awgrymwyd pethau angharedig amdano. Roedd yntau ar dro yn teimlo'n ddryslyd ynglŷn ag ymddygiad ei ddilynwyr, a chafodd ei fradychu ganddynt.

Ond sylwch, ddihangodd Iesu ddim yn llwyr o ryw faint o gynnwrf mewnol. “Yn awr y mae fy enaid mewn cynnwrf”, cyffesodd. Mae'r gair a ddewiswyd gan Ioan i ddisgrifio hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tonnau brochus mewn môr tymhestlog! Roedd Iesu ‘yn corddi’ y tu mewn. Er ei fod yn un â'i Dad, roedd yn anghytûn â byd gwrthryfelgar, ac fe deimlai'r anghysondeb yn ei galon ei hun.

Eto, fel mae darlleniad heddiw yn ei ddangos, cafodd ateb i'w ddiffyg tangnefedd ar unwaith yng nghariad Duw ac ym mwriad y Tad ar gyfer ei fywyd. Does dim un amgylchiad helbulus neu drallodus yn bodoli nad yw'n amhosibl dod o hyd i'r tangnefedd o glodfori Duw ynddo. Peidiwch byth ag anghofio hynny. Pan fydd eich calon yn corddi oherwydd y teimlad eich bod yn anghytûn ag ysbryd y byd – yr ysbryd a groeshoeliodd eich Arglwydd – mae'n bosibl teimlo tangnefedd mewnol sy'n dod o wybod y bydd bwriadau Duw yn cael eu gwireddu er gwaethaf y negyddion sy'n gweiddi arnoch o bob cyfeiriad. Dyma'r tangnefedd sy'n rhan o etifeddiaeth yr Arglwydd i ni. Rhyfeddol. Rhyfeddol yn wir.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Num. 25: 10–13; Diar. 14: 30; Math. 3: 13–17; 26: 36–56

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pryd gafodd Iesu sicrwydd o gariad y Tad?
2. Beth oedd yn gyfrifol am hyder Iesu, hyd yn oed yn Gethsemane?

Gweddi

O Dad, mae'n rhyfeddol fy mod, oherwydd bod dy dangnefedd yn fy nghalon, yn gallu edrych ar fywyd a dweud: ‘Gwna dy orau neu dy waethaf. Mae gennyf dangnefedd, tangnefedd digonol, o'm mewn.’ Dw i mor ddiolchgar. Bendigedig fyddo d'enw am byth! Amen.